Thomas William, Bethesda'r Fro, 1761–1844
Gweinidog (A) ac emynydd

Dros y blynyddoedd bu nifer o emynau Thomas William yn eithriadol boblogaidd. Y mae pedwar ohonynt yn *Caneuon Ffydd,* gan gynnwys:

F'enaid, gwêl i Gethsemane,
edrych ar dy Brynwr mawr
yn yr ing a'r ymdrech meddwl,
chwŷs a gwaed yn llifo i lawr.
Dyma'r cariad mwyaf rhyfedd,
mwyaf rhyfedd fu erioed!

Ganwyd ef ar 1 Mawrth 1761, y trydydd o bedwar o blant Richard a Margaret Williams, Trerhedyn, plwyf Pendeulwyn, Bro Morgannwg. Ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar, ond y mae tystiolaeth fod ganddo ddiddordeb mewn crefydd pan oedd yn blentyn a'i fod yn darllen y Beibl yn gyson ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Pan nad oedd ond deg oed ymunodd â seiat y Methodistiaid yn Nhre-hyl ger Sain Nicolas a bu yno am ugain mlynedd. Cafodd swydd fel ysgrifennydd Suliau, yn gwahodd pregethwyr i ddod i agor y gair, a daeth o dan ddylanwad David Jones, Llan-gan. Ond sut y daeth Methodist brwd yn weinidog Annibynnol? Digwyddodd hyn o ganlyniad i anghydfod yn eglwys Aberthin ger y Bont-faen, Bro Morgannwg. Eglwys gymysg oedd hon, gyda Methodistiaid ac Annibynwyr yn cydaddoli, ond oherwydd y daliadau diwinyddol amrywiol cododd tyndra. Ychwanegwyd at y ffrae gan ddiarddeliad Peter Williams yn sasiwn Llandeilo 1790 ar y sail fod ei ddehongliad o'r Beibl yn sawru o Sabeliaeth. Diwedd y gân oedd i'r garfan o'r eglwys gael eu diarddel, ac yn eu plith Thomas William. O ganlyniad cofrestrwyd ei dŷ, Ffwl-y-mwn, Britwn, fel lle o addoliad ym 1797 a hwn oedd cychwyn yr achos a ddaeth yn Bethesda'r Fro.

Ordeiniwyd ef yn weinidog ar yr eglwys ar 3 Mehefin 1798 a bu'n fugail arni weddill ei oes. Ei gymhelliad i bregethu oedd ei awydd i gyflwyno Iesu Grist fel Gwaredwr i'r bobl. Ym 1806 codwyd capel Bethesda ym mhlwyf Llanilltud Fawr fel cartref i'r eglwys.

Priododd â Jane Morgan o Eglwys Brewys ym 1790. Ychydig a wyddom amdani ond ysgrifennodd Walter Daniel, Trehafod, fel hyn: 'Cafodd yr emynydd wraig gall a duwiol. Nid yw pob gwraig gall yn dduwiol, ac nid yw pob gwraig dduwiol yn gall.' Bu farw Jane ym mis Hydref 1827, a saethau trwy ei galon oedd marwolaeth ei ferch Margaret yn 37 oed, gan adael pump o blant a'i fab ieuengaf, John, ym 1840 ac yntau'n ddim ond 41 oed.

Cyfraniad Thomas Williams fel emynydd a gofir yn bennaf, a bu ei emynau dwys, ysgrythurol yn cyfoethogi addoliad Cristnogion Cymru ers dros ddwy ganrif. Ymhlith ei emynau mwyaf poblogaidd y mae 'O! Iesu, Ffrind cystuddiol rai'; 'Y Gŵr wrth ffynnon Jacob', 'O'th flaen, O! Dduw rwy'n dyfod' ac 'Adenydd c'lomen pe canwn'. Cyhoeddwyd nifer o gasgliadau o'i weithiau, a'r cyntaf oedd *Elegeia* (1785), llyfryn deuddeg tudalen a gynhwysai fyfyrdodau, a'r ddau emyn cyntaf a gyhoeddodd, sef 'O Geidwad Israel, Bugail byd' a 'Fe dalwyd dyled Eden'. Dilynwyd hwn gan gyfrolau eraill, gan gynnwys *Llais y Durtur yn y Wlad* (1812), *Perl Mewn Adfyd* (1814), *The Tear of Friendship* (1817) a *Dyfroedd Bethesda* (1824).

Bu farw 23 Tachwedd 1844 yn 83 oed, a rhoddwyd ei gorff i orffwys wrth fur capel Bethesda'r Fro. Y tu mewn i'r capel y mae maen coffa iddo ac arno'r geiriau:

Rhagorol weinidog gwych enwog a chu,
A disglair oleuad i fagad a fu.
Fe ganodd yn beraidd tra parodd ei oes;
Yn rhad y pregethodd yr Iesu a'i Groes.